| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **BWRDD Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **16 CHWEFROR 2010** |
| **TEITL** | **DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2010/11** |
| **ARGYMHELLIAD** | **CYFEIRIO'R STRATEGAETHAU AR GYFER 2010/11 A' R NEWIDIADAU I ATODLENNI RHEOLI'R TRYSORLYS I'R CYNGOR LLAWN I'W FABWYSIADU** |
| **AWDUR** | **DAFYDD L EDWARDS - PENNAETH CYLLID** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Y CYNGHORYDD DYLAN EDWARDS** |

**<u>Cyflwyniad a Chefndir</u>**

1 Mae Côd Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad Polisi a phapurau ymarfer ynghyd ag atodlen fanwl yn nodi sut y mae'r Cyngor yn bwriadu ymdrin â holl weithrediadau'r trysorlys. Prif ofyniad y Côd yw i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r Datganiad Polisi, y papurau ymarfer a'r atodlen. Fe gymeradwywyd y rhain gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2004.

2 Mae Cyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Cyfarwyddyd") yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Mae'r Cyfarwyddyd yn nodi y gall awdurdodau gyfuno Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol i un adroddiad. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r syniad hwnnw, felly mae'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol wedi ei chynnwys yn rhan 6 o **Atodiad A**.

3 Yn ôl y Côd a'r cyfarwyddyd mae gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Manylir ar y strategaeth ar gyfer 2010/11 yn **Atodiad A.**

4 Yn ychwanegol cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2003 fframwaith ddarbodus newydd ar gyfer buddsoddiad cyfalaf awdurdodau lleol. Roedd y trefniadau newydd, oedd yn weithredol o'r 1af o Ebrill 2004, yn cyflwyno system lywodraethu newydd ar gyfer gwariant cyfalaf awdurdodau lleol, sy'n bennaf seiliedig ar hunan reolaeth. Datblygwyd y Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities ('y Cod') gan CIPFA fel cod ymarfer proffesiynol, gyda chefnogaeth statudol, i gefnogi awdurdodau lleol wrth gymryd y penderfyniadau hyn. Amcanion allweddol y Cod yw sicrhau bod cynlluniau buddsoddi cyfalaf awdurdodau lleol yn fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy. Mynna'r Cod bod awdurdodau lleol, cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol, yn gosod rhai dangosyddion darbodus penodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a blynyddoedd dilynol. Mae'r dangosyddion yma, sy'n seiliedig ar y cynigion yn yr adroddiadau cyllideb refeniw a chyfalaf wedi eu cynnwys yn **Atodiad B.**

5 Ar hyn o bryd dim ond gyda'r 8 sefydliad sy'n rhan o'r Cynllun Gwarantu Credyd y mae'r Cyngor yn buddsoddi. Gan fod cyflyrau yn y sector ariannol wedi dechrau dangos arwyddion o wella, er mwyn cael amrywiad yn y rhestr o wrthbartion **(Atodiad C),** rydym eisiau ychwanegu 19 o fanciau tramor i'r rhestr. O ganlyniad mae angen gwneud newidiadau i'r rhestr swyddogol o wrthbartion cymeradwy sydd yn Atodlenni Rheoli'r Trysorlys cyfredol y Cyngor. Nodir y newidiadau hyn yn **Atodiad C**, gyda'r ychwanegiadau mewn print trwm.

6 O'r 31ain o Fawrth 2008, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008 [y "Rheoliadau Diwygiedig"]. Mae'r rheoliadau yma yn cyflwyno newidiadau penodol i'r rhai a gafodd eu cyflwyno yn 2003 [y "Rheoliadau Gwreiddiol"] fel rhan o weithrediad y gyfundrefn Benthyca Ddarbodus. Ymhlith y newidiadau sydd wedi eu cyflwyno mae'r gofyn am Ddatganiad Polisi Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) blynyddol.

7 Mae'r Rheoliadau Gwreiddiol yn gosod allan sail statudol a fformiwla gymhleth ar gyfer cyfrifo'r DLlR. Mae'r Rheoliadau Diwygiedig ond yn gofyn am dal sydd yn 'ddarbodus', ac mae awdurdodau yn cael defnyddio fwy o ddisgresiwn yn nhermau'r tal a godwyd, serch fod hyn o fewn rhai paramedrau. Mae'r strategaeth atodol yn rhan 8 o **Atodiad A** yn cynnwys y Datganiad DLlR Blynyddol ar gyfer 2010/11.

8 Mae aelodau'r Prif Bwyllgor Craffu wedi gofyn i mi gadarnhau os oes gan y Cyngor "unrhyw fuddsoddiadau sy'n ymwneud ag arfau". Ac eithrio buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn, sy'n llawer mwy amrywiol ac sy'n destun sylw priodol gan y Pwyllgor Pensiynau a'r Prif Bwyllgor Craffu ar wahân i'r adroddiad yma, mae holl "fuddsoddiadau" y Cyngor (h.y. buddsoddiadau'r gronfa gyffredinol) yn adneuon arian mewn banciau (neu debyg). Gweler manylion y fath sefydliadau yn Rhan 6 o Atodiad A ar dudalennau 8-9 o'r papur hwn, ynghyd â'r rhestr o'r holl fanciau penodol yn Atodiad C ar dudalen 15. Wrth gwrs, mae'n bur debyg bydd nifer o'r banciau yma'n benthyg arian i gwmnïau sy'n ymwneud ag arfau, ond nid oes modd osgoi hynny gan fyddai'r fath gwmnïau yn medru newid banc i un ar ein rhestr dethol ar ôl i ni bennu banciau "glan". Yn bendant, nid yw cronfa gyffredinol y Cyngor yn buddsoddi'n uniongyrchol mewn unrhyw gwmnïau sy'n cynhyrchu arfau neu fasnachu mewn arfau.

9 Mae aelodau'r Prif Bwyllgor Craffu wedi gofyn i mi nodi "beth sy'n digwydd i fuddsoddiad Gwlad yr Iâ". Rwy'n manylu ar ddigwyddiadau, datblygiadau a disgwyliadau perthnasol yn **Atodiad Ch** ar dudalen 16.

10 Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae'r Gweithgor Craffu Materion Arbenigol Cyllid eisoes wedi derbyn cyflwyniad manwl o'r papur hwn ac wedi craffu'r rhannau rheiny sy'n newid yn ofalus. Ddaru'r Cynghorydd John Gwilym Jones, y Cynghorydd Dewi Llewelyn a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol (Dilwyn O Williams) gwrdd gyda'r Arweinydd Portffolio Cyllid (y Cynghorydd Dylan Edwards) a'r swyddogion perthnasol o'r Adran Gyllid ar 28 Ionawr. Derbyniwyd eglurhaon ar sawl mater a newidiwyd ambell ran o'r fersiwn ddrafft a gyflwynwyd i'r Gweithgor. Rhaid i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r Strategaeth, ond diau y bydd aelodau'r Prif Bwyllgor Craffu, y Bwrdd, a'r Cyngor llawn yn dibynnu ar aelodau'r Gweithgor Craffu Materion Arbenigol Cyllid sydd wedi derbyn yr "hyfforddiant" perthnasol ac wedi cael cyfle i holi a herio mewn awyrgylch anffurfiol.

**Argymhelliad**

**11 Gofynnir i'r Bwrdd argymell i'r Cyngor Llawn 25 Chwefror fabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol am 2010/11 (Atodiad A), y Dangosyddion Darbodus (Atodiad B) a'r newidiadau i Atodlenni Rheoli'r Trysorlys (Atodiad C).**

**ATODIAD A**

# DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS A'R STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL

## 1. Cyflwyniad

Mae CIPFA wedi diffinio Rheolaeth Trysorlys fel a ganlyn:

*"the management of the organisation's investments and cash flows, its banking, money market and capital market transactions; the effective control of the risks associated with those activities; and the pursuit of optimum performance consistent with those risks."*

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ei benderfyniadau a gweithgarwch trysorlys. Nid oes unrhyw weithgarwch rheolaeth trysorlys nad ydyw'n cyflwyno risg. Mae adnabod risgiau'n llwyddiannus, eu monitro a'u rheoli yn elfen bwysig ac integrol o'i weithgareddau rheolaeth trysorlys. Y prif risgiau i weithgareddau rheolaeth trysorlys y Cyngor yw:

- Risg o Hylifedd (adnoddau arian annigonol)
- Risgiau Cyfraddau'r Farchnad neu Gyfraddau Llog (lefelau cyfraddau llog yn amrywio)
- Risg o Chwyddiant (Bod yn agored i chwyddiant)
- Risg Credyd a Gwrthbarti (Diogelwch Buddsoddiadau)
- Risg o Ailgyllido (Effaith dyled yn aeddfedu mewn blynyddoedd i ddod)
- Risg Gyfreithiol a Rheoleiddiol;
- Risg o fethu sicrhau'r dychweliadau llog gorau sydd ar gael.

Yn ogystal, mae'r strategaeth yn ystyried effaith Cyllideb Refeniw a Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar sefyllfa'r Fantolen, y sefyllfa Trysorlys gyfredol a'r sefyllfa a ragwelir, y Dangosyddion Darbodus a'r rhagolygon ar gyfer cyfraddau llog.

Pwrpas y Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys yw cymeradwyo:

- Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2010-11;
- Dangosyddion Darbodus;
- Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR); a
- Defnydd o Fuddsoddiadau Penodedig ac Amhenodedig.

## 2. Sefyllfa'r Fantolen a'r Trysorlys

Yr angen gwaelodol i fenthyca er dibenion cyfalaf fel y'i mesurir gan y Gofyn Cyllido Cyfalaf, ynghyd â'r Balansau a'r Reserfau yw gyrwyr allweddol y Gweithgarwch Rheolaeth Trysorlys. Nodir yr amcangyfrifon isod:

| | **31 Maw 10 Amcan £m** | **31 Maw 11 Amcan £m** | **31 Maw 12 Amcan £m** | **31 Maw 13 Amcan £m** |
|---|---|---|---|---|
| Gofyn Cyllido Cyfalaf | 147.3 | 149.7 | 156.5 | 157.7 |
| Balansau a Reserfau | (46.0) | (39.4) | (36.3) | (33.3) |
| **Sefyllfa Net y Fantolen** | **101.3** | **110.3** | **120.20** | **124.4** |

Bydd sefyllfa'r farchnad, disgwyliadau cyfradd llog a risgiau credyd i gyd yn dylanwadu ar strategaeth y Cyngor o ran pennu'r gweithgarwch benthyca a buddsoddi yn erbyn sefyllfa waelodol y Fantolen.

Gan fod y Gofyn Cyllido Cyfalaf yn cynrychioli’r lefel benthyca er dibenion cyfalaf, ac na ellir ariannu gwariant refeniw o fenthyciadau, ni ddylai'r benthyca allanol fod yn fwy na'r Gofyn Cyllido Cyfalaf heblaw am ar gyfer anghenion llif arian tymor byr. Mae’r amcangyfrif o sefyllfa portffolio rheolaeth trysorlys y Cyngor fel a ganlyn:

| | 31 Maw 10 Amcan £m | 31 Maw 11 Amcan £m | 31 Maw 12 Amcan £m | 31 Maw 13 Amcan £m |
|---|---|---|---|---|
| **Benthyca Allanol:** | | | | |
| Cyfradd Sefydlog – BBGC | 107.3 | 103.6 | 97.8 | 96.5 |
| Cyfradd Sefydlog - Marchnad | 16.2 | 16.2 | 16.2 | 16.2 |
| **Ymrwymiadau Hirdymor IFRS:** | | | | |
| Prydlesau Gweithredol | 0.0 | 0.2 | 0.2 | 0.2 |
| **Cyfanswm Dyled Allanol** | **123.5** | **119.0** | **114.2** | **112.9** |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **(46.0)** | **(39.4)** | **(36.3)** | **(33.3)** |
| **Sefyllfa Benthyca Net / (Sefyllfa Buddsoddiadau Net)** | **77.5** | **79.6** | **77.9** | **79.6** |

** **BBGC(PWLB)** – Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus*

## 3. Rhagolygon ar gyfer Cyfraddau Llog

Mae’r rhagolygon cyfraddau llog fel ar Ionawr 2010, yn cael eu darparu gan ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor, Arlingclose Ltd, ac fe’u dengys isod:

| | Rhag 2009 | Maw 2010 | Meh 2010 | Medi 2010 | Rhag 2010 | Maw 2011 | Meh 2011 | Medi 2011 | Rhag 2011 | Maw 2012 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd Sylfaenol** | | | | | | | | | | |
| Risg gall godi | | | | +0.25 | +0.25 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 |
| **Barn Ganolog** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **1.00** | **1.50** | **2.00** | **2.50** | **3.00** | **3.00** |
| Risg gall ostwng | | | | | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 |
| **LIBID Blwyddyn** | | | | | | | | | | |
| Risg gall godi | | | | +0.25 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | |
| **Barn Ganolog** | **1.25** | **1.25** | **1.25** | **1.50** | **1.75** | **2.25** | **3.00** | **3.50** | **4.00** | **1.25** |
| Risg gall ostwng | | | | | -0.25 | -0.25 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | |
| **Gilt 5 Mlynedd** | | | | | | | | | | |
| Risg gall godi | | +0.25 | +0.25 | +0.25 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 |
| **Barn Ganolog** | **2.60** | **2.70** | **2.80** | **2.90** | **3.00** | **3.25** | **3.50** | **3.75** | **4.00** | **4.25** |
| Risg gall ostwng | | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |
| **Gilt 10 Mlynedd** | | | | | | | | | | |
| Risg gall godi | | | +0.25 | +0.25 | +0.25 | +0.25 | +0.25 | +0.25 | +0.25 | +0.25 |
| **Barn Ganolog** | **3.60** | **3.75** | **3.75** | **4.00** | **4.00** | **4.25** | **4.25** | **4.50** | **4.50** | **4.75** |
| Risg gall ostwng | | | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |
| **Gilt 20 Mlynedd** | | | | | | | | | | |
| Risg gall godi | | +0.25 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.25 | +0.25 | +0.25 | +0.25 | +0.25 |
| **Barn Ganolog** | **4.10** | **4.25** | **4.50** | **4.75** | **4.75** | **5.00** | **5.00** | **5.00** | **5.00** | **5.00** |
| Risg gall ostwng | | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |
| **Gilt 50 Mlynedd** | | | | | | | | | | |
| Risg gall godi | +0.25 | +0.25 | +0.25 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | +0.50 |
| **Barn Ganolog** | **4.00** | **4.25** | **4.50** | **4.50** | **4.50** | **4.75** | **4.75** | **4.75** | **4.75** | **4.75** |
| Risg gall ostwng | | | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |

Rhagolygon Arlingclose ar gyfer cyfraddau llog yw y bydd y gyfradd sylfaenol:-

- yn parhau ar 0.50% hyd nes Ch4 2010 pan fydd yn codi i 1.00% ac i 1.5% yn Ch1 2011
- disgwylir bydd yn parhau i godi'n raddol hyd nes iddo gyrraedd 3.0% yn Ch1 2012.

Fodd bynnag, mae risg y gall y rhagolygon hyn ostwng yn sgil israddio statws credyd sofren a/neu ansefydlogrwydd gwleidyddol.

Mae eu rhagolygon economaidd fel a ganlyn:

- Mae Banc Lloegr yn rhagweld y bydd Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yn cynyddu 4% yn 2011, ond yn nodi gallai'r twf gael ei rwystro yn sgil cyfyngiadau mewn credyd gan fanciau ac ymddygiad gwario gofalus prynwyr. Mae hwn yn ragolwg optimistaidd yn ein barn ni - mae tystiolaeth o adferiad yn brin gan mai gwan yw'r gwir ddata economaidd sy'n bodoli ac mae diweithdra'n cynyddu.
- Mae'r rhagolygon cyflogaeth yn parhau'n ansicr. Bydd cyflogau'n parhau i gael eu rhewi a swyddi'n cael eu torri yn 2010.
- Nid yw chwyddiant yn bryder dybryd. Mae'r Banc yn rhagweld y bydd CPI yn cynyddu yn y misoedd nesaf yn sgil prisiau nwyddau uwch a TAW yn dychwelyd i 17.5%, ond rhagwelir y bydd yn parhau'n is na 2% yn y tymor byr, ac y bydd yn 2012 cyn iddo basio'r targed.
- Mae diffygion ariannol y DU yn parhau'n llym. Bellach, mae toriadau mewn gwariant cyhoeddus a chynnydd mewn treth yn anochel ac yn fwy tebygol o gael eu cyflwyno yn 2010 gan lywodraeth newydd gyda mwyafrif clir.
- Bydd y cyflenwad net o giltiau yn cynyddu i lefelau digynsail yn 2010. Bydd methu creu a chyflwyno cynllun brys a chredadwy er mwyn gostwng benthyca'r llywodraeth i lefelau cynaliadwy dros y tymor canolig yn cael effaith negyddol ar giltiau.

## 4. <u>Y Gofyn Benthyca a'r Strategaeth Fenthyca</u>

Mae gofyn gwaelodol y Cyngor i fenthyca er dibenion cyfalaf yn cael ei fesur trwy gyfeirio at y Gofyn Cyllido Cyfalaf – gweler Atodiad B. Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf yn cynrychioli gwariant cyfalaf cronnus yr awdurdod lleol ble nad yw wedi'i ariannu. Er mwyn sicrhau y bydd y gwariant hwn yn cael ei ariannu yn y pen draw, mae gofyn i awdurdodau lleol wneud Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) ar gyfer Aildrefnu Dyledion o fewn y gyllideb Refeniw pob blwyddyn.

Efallai y bydd benthyca allanol yn fwy neu'n llai na'r Gofyn Cyllido Cyfalaf, ond yn unol â'r Côd Darbodus, bydd y Cyngor yn sicrhau nad yw'r benthyca allanol, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na'r Gofyn Cyllido Cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon ynghylch unrhyw Ofyn Cyllido Cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flwyddyn ariannol ddilynol.

Mae amcangyfrif cronnus o'r anghenion benthyca tymor hir fel a ganlyn:

| | 31 Maw 10 Amcan £m | 31 Maw 11 Amcan £m | 31 Maw 12 Amcan £m | 31 Maw 13 Amcan £m |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyn Cyllido Cyfalaf** | 147.3 | 149.7 | 156.5 | 157.7 |
| **Llai:** Proffil Benthyca Presennol ac Ymrwymiadau Tymor Hir Eraill | **(123.5)** | **(119.0)** | **(114.2)** | **(112.9)** |
| **Uchafswm Gofyn Benthyca Allanol** | **23.8** | **30.7** | **42.3** | **44.8** |
| Balansau a Reserfau | (46.0) | (39.4) | (36.3) | (33.3) |
| **Gofyn Benthyca / Buddsoddi Net Cronnus** | **(22.2)** | **(8.7)** | **6.0** | **11.5** |

Strategaeth y Cyngor yw cynnal y rheolaeth uchaf bosib dros ei weithgareddau benthyca, ynghyd â hyblygrwydd gyda'i bortffolio benthyciadau. Bydd lefelau gwariant cyfalaf, cyflwr y farchnad a lefelau cyfraddau llog yn cael eu monitro yn ystod y flwyddyn er mwyn isafu'r costau benthyca dros y tymor canolig - tymor hir. Bydd dull darbodus a phragmatig o fenthyca'n cael ei arfer er mwyn isafu costau benthyca heb roi sefydlogrwydd y portffolio yn y tymor hir yn y fantol, yn unol â Dangosyddion Darbodus y Cyngor.

Ar y cyd â chyngor gan ei ymgynghorydd trysorlys, Arlingclose, bydd y Cyngor yn parhau i adolygu'r opsiynau sydd ganddo o ran benthyca hyd y capasiti eithaf o fewn ei Ofyn Cyllido Cyfalaf a'i Derfyn Benthyca Fforddiadwy (wedi'i ddiffinio gan CIPFA fel y Terfyn Awdurdodedig).

**Y Strategaeth Fenthyca**

Mae cyfraddau newidiol BBGC wedi syrthio'n is nag 1%. Disgwylir iddynt barhau'n isel gan fod y gyfradd sylfaenol wedi'i chadw ar lefelau sy'n isel yn hanesyddol fel y bo modd i'r economi fregus ddod allan o'r Dirwasgiad. Gan fod cyfraddau llog yn parhau'n is am gyfnod hwy yna gallai barhau i fod yn briodol benthyca arian dros y tymor hir yn ôl yr angen.

Y BBGC sy'n parhau i fod y ffynhonnell fenthyca o ddewis yn sgil y tryloywder a'r rheolaeth mae ei gyfleusterau'n parhau i'w darparu.

## 5. Aildrefnu Dyledion

Bydd y Cyngor yn parhau i gynnal polisi hyblyg ar gyfer aildrefnu dyledion. Gallai natur gyfnewidiol y farchnad a'r gromlin cynnyrch (*yield*) serth ddarparu cyfleoedd ar gyfer aildrefnu dyledion o bryd i'w gilydd.

Byddai un neu fwy o'r hyn a nodir isod yn rheswm am aildrefnu:

- Arbedion o ran costau llog gyda risg isel iawn
- Cydbwyso proffil natur gyfnewidiol (h.y. y gyfradd o ddyledion cyfraddau llog penodol a chyfraddau llog cyfnewidiol) y portffolio dyledion; ac
- Addasu'r proffil dyledion sy'n aeddfedu er mwyn gostwng unrhyw risgiau ail-gyllido a ddaw yn eu sgil.

Bydd unrhyw weithgaredd aildrefnu'n cael ei wneud o fewn polisi a strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor ac fe adroddir am y gweithgaredd wrth yr Arweinydd Portffolio yn dilyn unrhyw aildrefnu. Os bydd yr Arweinydd Portffolio yn credu ei fod yn fater o bwys, adroddir am yr aildrefnu wrth y Bwrdd hefyd.

## 6. Polisi a Strategaeth Fuddsoddi

Mae Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol yn ei gwneud yn ofynnol creu Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol (SFF).

**Polisi Buddsoddi**
Er mwyn cydymffurfio â'r Canllawiau hyn, amcan polisi cyffredinol y Cyngor yw bod yn ddarbodus wrth fuddsoddi balansau'r trysorlys. Mae gwarantu cyfalaf a hylifedd buddsoddiadau yn hytrach na'u cynnyrch yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn anelu i wneud yr elw mwyaf posib ar ei fuddsoddiadau yn gyfesur â lefelau priodol o ddiogelwch a hylifedd. Mae benthyca arian yn unswydd er mwyn ei fuddsoddi, neu "*on-lend*", a gwneud elw yn anghyfreithlon ac ni fydd y Cyngor hwn yn ymrwymo i weithgaredd o'r fath.
Mae'r offerynnau buddsoddi sydd wedi eu dynodi ar gyfer eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol wedi'u rhestru isod o dan y categorïau Buddsoddiadau 'Penodedig' ac 'Amhenodedig'.

**Buddsoddiadau Penodedig:**
Defnyddir Sterling ar gyfer pob buddsoddiad o'r fath, **gydag aeddfediad o hyd at flwyddyn ar y mwyaf,** gan gyrraedd yr isafswm meini prawf credyd 'uchel' ble bo hynny'n berthnasol.

| | **Isafswm Meini Prawf Credyd 'Uchel'** | **Defnydd** | **Uchafswm Cyfnod** |
|---|---|---|---|
| Cyfleuster Adneuon yr Asiantaeth Rheoli Dyledion (DMADF) | Diogel iawn er nad ydi'r DMADF yn cael eu hasesu ar gyfer statws credyd. | Mewnol | Blwyddyn |
| Adneuon Cyfnod Penodol gydag Awdurdodau Lleol | Diogel iawn er nad ydi Awdurdodau Lleol yn cael eu hasesu ar gyfer statws credyd. | Mewnol | Blwyddyn |
| Adneuon Cyfnod Penodol a Thystysgrifau Adneuon gyda banciau a chymdeithasau adeiladu gan gynnwys adneuon galwadwy gydag aeddfediad llai na blwyddyn | Isafswm tymor byr F1 neu gyfwerth. Isafswm tymor hir A+ neu gyfwerth. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn ystyried gwybodaeth ar ddatblygiadau corfforaethol ynghylch gwrthbartïon buddsoddi ynghyd ag agwedd y farchnad tuag atynt. | Mewnol | Blwyddyn |

**Buddsoddiadau Amhenodedig**:
Ar ôl ystyried y rhesymeg a'r risg sy'n gysylltiedig â Buddsoddiadau Amhenodedig, mae'r hyn a ganlyn wedi'i bennu er defnydd y Cyngor:

| | **Isafswm Meini Prawf Credyd** | **Defnydd** | **Uchafswm Cyfnod Aeddfedu** | **Uchafswm % y Portffolio** |
|---|---|---|---|---|
| Adneuon Cyfnod Penodol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu gan gynnwys Tystysgrifau Adneuon | Isafswm tymor byr F1 neu gyfwerth. Isafswm tymor hir AA- neu gyfwerth. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn ystyried gwybodaeth ar ddatblygiadau corfforaethol ynghylch gwrthbartïon buddsoddi ynghyd ag agwedd y farchnad tuag atynt. | Mewnol a Rheolwyr Cronfeydd | 2 flynedd | 50% o holl bortffolio'r Cyngor |
| Cronfeydd Marchnad Arian | AAAm | Mewnol a Rheolwyr Cronfeydd | Hylifedd Dyddiol | 50% o holl bortffolio'r Cyngor |

Mae'r wasgfa ariannol wedi rhoi'r ffocws yn ôl ar y flaenoriaeth rheolaeth trysorlys sef diogelwch yr arian cyfalaf sy'n cael ei fuddsoddi. Mae'r Cyngor yn defnyddio statws credyd er mwyn llunio ei restr o wrthbartïon (Atodiad C). Bydd y Cyngor a'i Ymgynghorwyr Trysorlys, Arlingclose, yn parhau i gynnal rhestr o wrthbartïon a bydd yn asesu a diweddaru statws credyd y sefydliadau'n rheolaidd. Bydd yr asesiad yn ystyried ffactorau megis:

- statws credyd unigol (isafswm tymor hir A+);
- *"credit default swaps"*;
- dyled net unrhyw wlad fel canran o'i Gynnyrch Mewnwladol Crynswth;
- hawl i gynlluniau gwarant y Llywodraeth;
- cefnogaeth bosib gan sefydliad rhiant gydag adnoddau digonol; a
- phris cyfranddaliad y sefydliad.

Os yw statws credyd gwrthbarti'n cael ei israddio ac nad ydyw, o ganlyniad i hynny, yn cyrraedd gofynion lleiafswm y Cyngor, bydd unrhyw ddefnydd arfaethedig o'r gwrthbarti hwnnw fel buddsoddiad newydd yn cael ei wrthod yn syth. Os bydd corff yn cael ei osod ar statws negyddol (h.y. bod tebygolrwydd rhesymol bod y statws am newid a bod y newid hwnnw am fod yn negyddol) a'i fod ger gwaelod y statws credyd derbyniol ar gyfer buddsoddi ar y pryd, yna ni wneir unrhyw fuddsoddiadau pellach gyda'r corff hwnnw.

**Strategaeth Fuddsoddi**

Mae cyllid y Cyngor sy'n cael ei reoli'n fewnol yn cael ei ariannu o lif arian y Cyngor yn bennaf ac mae'r balans craidd ar gael ar gyfer ei fuddsoddi dros gyfnod o ddwy neu dair blynedd. Yn unol â hynny, bydd buddsoddiadau'n cael eu gwneud wrth gyfeirio at y balans craidd, gofynion llif arian a'r rhagolygon ar gyfer cyfraddau llog tymor byr (h.y. cyfraddau ar gyfer buddsoddiadau hyd at flwyddyn).

Gan roi ystyriaeth i lefel balansau arian parod y Cyngor dros y tair blynedd nesaf, yr angen am hylifedd, ei ymrwymiadau gwario, a darpariaeth ar gyfer cynlluniau wrth gefn, mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylid cadw £40miliwn o'i falansau arian mewn buddsoddiadau amhenodedig yn ystod y flwyddyn.

Mae cyfradd sylfaenol y DU wedi parhau ar 0.5% ers mis Mawrth 2009. Mae cyfraddau arian marchnad tymor byr yn debygol o barhau ar lefelau isel iawn a bydd hyn yn cael effaith arwyddocaol ar yr incwm buddsoddi. Fodd bynnag, rhaid i strategaeth y Cyngor fod wedi'i hanelu tuag at y datblygiad hwn gan gydymffurfio, ar yr un pryd, gyda'r prif amcan sef diogelwch yr arian sydd wedi'i fuddsoddi.

Mae cyflyrau yn y sector ariannol wedi dechrau dangos arwyddion o wella, er gwaethaf y ffaith bod hynny yn dilyn ymyriad arwyddocaol gan awdurdodau'r llywodraeth. Er mwyn cael amrywiad yn y rhestr o wrthbartïon (Atodiad C) ystyrir erbyn hyn ei bod yn briodol defnyddio banciau cymharol y tu allan i'r DU ar gyfer buddsoddi. Banciau yn y gwledydd sofran a ganlyn sydd am gael eu cynnwys ar y rhestr: Awstralia, Canada, Y Ffindir, Ffrainc, Yr Almaen, Yr Iseldiroedd, Sbaen, Y Swistir a UDA. Mae'r gwledydd hyn, a'u Banciau, wedi'u dewis yn dilyn asesu'r ffactorau a nodwyd uchod yn ofalus. Bydd y Cyngor, a'i Ymgynghorwyr Trysorlys, Arlingclose, yn parhau i ddadansoddi a monitro'r ffactorau hyn ynghyd â datblygiadau credyd yn rheolaidd ac yn ymateb yn ôl yr angen er mwyn sicrhau diogelwch y cyfansymiau cyfalaf a fuddsoddwyd.

## 7. Y Gofyn am Gyllideb Gytbwys

Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â darpariaethau A32 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 o ran gosod cyllideb gytbwys.

## 8. Datganiad DLlR 2010/11

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifeg)(Cymru)(fel y'i diwygiwyd) 2008 [OS 2008/588 (W.59)] yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud darpariaethau darbodus ar gyfer adbrynu dyledion. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau ar Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw ac mae gofyn i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i Ganllawiau o'r fath yn unol ag adran 21 (1A) Deddf Llywodraeth Leol 2003.

O ran gwariant cyfalaf a wnaed cyn 1 Ebrill 2008 neu fydd yn cael ei ystyried fel gwariant cyfalaf gyda chefnogaeth yn y dyfodol, bydd y polisi DLlR yn seiliedig ar y Gofyn Cyllido Cyfalaf ar 4% o'r balans cychwynnol llai addasiad ('A') (Opsiwn 1). Y bwriad gydag "Addasiad A" oedd cyflawni niwtraliaeth rhwng y Gofyn Cyllido Cyfalaf a'r hen Derfyn Uchaf Credyd (*Credit Ceiling*) a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r DLlR cyn i'r System Ddarbodus gael ei chyflwyno ar 1 Ebrill 2004.
O 1 Ebrill 2008, o ran pob benthyciad heb gefnogaeth sy'n cael ei ymarfer yn unol â'r Côd Darbodus, bydd y polisi DLlR yn seiliedig ar Ddull Oes yr Ased (Opsiwn 3). Bydd y DLlR yn cael ei rhannu'n rhandaliadau hafal blynyddol dros gyfnod oes yr ased. Bydd yr arwystl cyntaf yn cael ei oedi hyd nes bydd yr ased yn weithredol.

Pennir cyfnodau oes asedau dan bwerau dirprwyedig. Ar yr amod nad yw'r arian yn cael ei wario ar greu ased a'i fod o'r math sy'n destun amcan gyfnodau oes y cyfeirir atynt yn y canllawiau, bydd y Cyngor, fel arfer, yn mabwysiadu'r cyfnodau hyn. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn cadw'r hawl i bennu cyfnod oes defnyddiol a DLlR darbodus dan amgylchiadau eithriadol pan na fyddai argymhellion y canllawiau'n briodol.

Gan nad oes modd i beth gwariant cyfalaf y Cyngor gael ei briodoli i ased unigol, bydd oes asedau'n cael eu hasesu ar sail sy'n rhoi'r adlewyrchiad mwyaf rhesymol ynghylch cyfnod y budd a geir yn sgil y gwariant. Yn ogystal, waeth beth fo math y gwariant dan sylw, bydd yn cael ei grwpio gyda'i gilydd mewn dull sy'n adlewyrchu natur prif gydran y gwariant ac ni fydd yn cael ei rannu ond mewn achosion pan fo gan ddwy gydran fawr neu fwy oes economaidd ddefnyddiol sy'n sylweddol wahanol i'w gilydd.

Bydd DLlR o ran Menter Cyllid Preifat (*PFI*) a lesau a brynwyd ar Fantolen dan *SORP* ac *IFRS* 2009 yn cydweddu â'r prif ad-daliad blynyddol ar gyfer yr ymrwymiad a ohiriwyd sy'n gysylltiedig â hyn.

Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r polisi hwn yn flynyddol yn sgil y Cynllun Rheoli Asedau.

## 9. Adrodd ar Alldro'r Trysorlys

Bydd y Pennaeth Cyllid yn adrodd i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol ynghylch y gweithgarwch rheolaeth trysorlys a'r perfformiad fel a ganlyn:
(a) Adolygiad hanner blwyddyn a diwedd blwyddyn yn erbyn y strategaeth a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn.
(b) Bydd y Cyngor yn cynhyrchu adroddiad alldro ar ei weithgarwch trysorlys ddim hwyrach na 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol.
(c) Y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol fydd yn gyfrifol am graffu'r gweithgarwch a'r arferion rheolaeth trysorlys.

## 10. Eitemau eraill

**Hyfforddiant i Aelodau**

Mae Côd diwygiedig CIPFA yn gofyn i'r Pennaeth Cyllid sicrhau bod aelodau sydd â chyfrifoldebau rheolaeth trysorlys, yn cynnwys craffu'r swyddogaeth rheolaeth trysorlys, yn derbyn hyfforddiant priodol sy'n berthnasol i'w hanghenion a'u bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn. Mewn perthynas â hyn derbyniodd y Gweithgor Craffu Materion Arbenigol Cyllid, yn eu cyfarfod ar 28/01/10, gyfarwyddyd a chymorth gan y swyddogion. Efallai bydd hyfforddiant mwy ffurfiol, efallai gan gwmni allanol, yn cael ei ddarparu ar gyfer aelodau perthnasol yn ystod 2010/11.

## DANGOSYDDION DARBODUS 2010/11 – 2012-13

**1 Cefndir:**

Mae gofyn dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i awdurdodau lleol ystyried y ddogfen *CIPFA's Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities* ("Côd Darbodus CIPFA) wrth osod eu Dangosyddion Darbodus ac wrth eu hadolygu. Dylid nodi y cynhaliodd CIPFA adolygiad o'r Côd yn gynnar yn 2008. Nid yw canlyniadau'r adolygiad hwnnw wedi'u cyhoeddi hyd yma.

Mae gofyn i'r Cyngor ddangos a yw wedi mabwysiadu Côd Ymarfer CIPFA o ran Rheolaeth Trysorlys ai peidio. Cafodd hwn ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn ar 4 Mawrth 2004.

| DANGOSYDD DARBODUS | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|
| **(1). ADRODDIAD DANGOSYDDION DARBODUS CYFALAF** | **gwir** | **amcan** | **amcan** | **amcan** | **amcan** |
| **a) Gwariant Cyfalaf** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cronfa Gyffredinol | 46,898 | 39,015 | 24,548 | 24,708 | 21,298 |
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 6,885 | 7,050 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **53,783** | **46,065** | **24,548** | **24,708** | **21,298** |
| **b) Cymhareb costau ariannu i lif refeniw net** | | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 4.28% | 5.77% | 5.70% | 4.96% | 4.69% |
| CRT | 8.49% | 7.08% | - | - | - |
| **c) Gofyn Cyllido Cyfalaf fel ar 31 Mawrth** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cronfa Gyffredinol | 144,038 | 147,278 | 149,694 | 156,480 | 157,698 |
| CRT | 14,524 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **158,562** | **147,278** | **149,694** | **156,480** | **157,698** |
| **ch) Effaith ychwanegol penderfyniadau buddsoddi cyfalaf** | | | **£** | **£** | **£** |
| i) Cynnydd blynyddol yn y dreth gyngor (band D) (yn unol â chanllawiau'r Cod) | - | - | 13.54 | 18.68 | 38.45 |
| ii) Cynnydd blynyddol yn y dreth gyngor (band D) (dangosydd lleol) | - | - | 10.16 | 0 | 0 |

**Nodiadau ar y Dangosyddion Darbodus Cyfalaf:**

1a) Gwir wariant cyfalaf ar gyfer 2008/09 ac amcangyfrifon ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd dilynol yn seiliedig ar ffynonellau ariannu gweddol gadarn yn unig.

1b) Dangosir y gost net o ariannu dyled (sy'n cynnwys ad-daliadau llog a phrifswm llai'r llog a geir o fuddsoddiadau) fel canran o'r incwm a dderbynnir gan y Llywodraeth a'r trethdalwyr.

1c) Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf yn adlewyrchu angen sylfaenol yr awdurdod i fenthyca i ddibenion cyfalaf.

1ch) i) Amcangyfrif o gost ychwanegol y penderfyniadau buddsoddi cyfalaf ar y dreth gyngor wedi ei gyfrifo yn unol â chanllawiau'r Cod. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau, a gafodd ei fabwysiadu gan y Cyngor yn y flwyddyn ariannol yma, wedi cael effaith sylweddol ar y dangosydd yma a'r dull o'i gyfrifo. Mae yn dangos yr effaith refeniw o'r Cynllun gan gymryd yn ganiataol fod yr holl gynllun yn cynrychioli 'penderfyniad buddsoddi cyfalaf newydd'. Mae'r dangosydd swyddogol yma yn gyfrifiad technegol pur sydd yn darparu amcangyfrifon eithaf camarweiniol. Er mwyn ceisio adnabod yr effaith go iawn o'r rhaglen gyfalaf ar refeniw, mae'r dangosydd isod hefyd wedi ei gynnwys.

1ch) ii) Amcangyfrif o gost ychwanegol y penderfyniad buddsoddi cyfalaf ar y dreth gyngor o gymeryd i ystyriaeth mai'r unig effaith go iawn yw'r £500,000 cyfraniad refeniw corfforaethol ychwanegol sydd wedi ei gynnwys yng nghyllideb safonol 2010/11.

Mae'r dangosyddion darbodus a ganlyn (yn nhabl 2 isod) yn berthnasol er dibenion sefydlu strategaeth rheolaeth trysorlys integredig.

| **DANGOSYDD DARBODUS** | **2008/09** | **2009/10** | **2010/11** | **2011/12** | **2012/13** |
|---|---|---|---|---|---|
| **(2). DANGOSYDDION DARBODUS RHEOLAETH TRYSORLYS** | **gwir** | **amcan** | **amcan** | **amcan** | **amcan** |
| **a) Terfyn Awdurdodedig ar gyfer dyled allanol -** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| benthyca | 165,000 | 160,000 | 160,000 | 160,000 | 160,000 |
| ymrwymiadau hirdymor eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CYFANSWM | 170,000 | 160,000 | 160,000 | 160,000 | 160,000 |
| **b) Ffin Weithredol ar gyfer dyled allanol -** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| benthyca | 150,000 | 140,000 | 135,000 | 130,000 | 125,000 |
| ymrwymiadau hirdymor eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | 150,000 | 140,000 | 135,000 | 130,000 | 125,000 |
| **c) Y terfyn uchaf ar gyfer y gyfradd llog sefydlog** | | | | | |
| Llog net ynghylch benthyca ar raddfa sefydlog | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| **ch) Y terfyn uchaf ar gyfer y gyfradd llog gyfnewidiol** | | | | | |
| Llog net ynghylch benthyca ar raddfa gyfnewidiol | 50% | 50% | 50% | 50% | 50% |
| **d) Terfyn uchaf ar gyfer cyfanswm prifsymiau a fuddsoddir am gyfnod tros flwyddyn** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| (fesul dyddiad aeddfediad) | 20,000 | 40,000 | 40,000 | 40,000 | 40,000 |

**Nodiadau ar y Dangosyddion Darbodus Rheolaeth Trysorlys:**

2a) a b) Mae'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol yn adlewyrchu'r disgwyliadau mae'r awdurdod yn eu gosod ar ei hun parthed benthyca allanol. Maent yn seiliedig ar y sefyllfa fwyaf tebygol, ddarbodus ond nid y sefyllfa waethaf bosib, gydag ychwaneg o le yn y Terfyn Awdurdodedig.

2c) a ch) Terfyn uchaf ar ba mor agored yw'r awdurdod i newidiadau mewn cyfraddau llog sefydlog a chyfnewidiol.

2d) Terfyn uchaf ar ba mor agored yw'r awdurdod i fuddsoddiadau am gyfnodau hwy na 364 o ddiwrnodau.

| **Trefn Aeddfediad benthyca yn ystod 2010/11** | Terfyn Uchaf | Terfyn Isaf |
|---|---|---|
| o fewn 12 mis | 25% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% |
| 10 mlynedd a mwy | 100% | 0% |

**ATODIAD C**

## RHESTR O WRTHBARTÏON CYMERADWY CYNGOR GWYNEDD

**Adneuon Cyfnod Penodol / Cyfrifon ar alw**

| **Gwlad** | **Gwrthbarti** | **Uchafswm Buddsoddiad a Argymhellir £m** | **Cyfyngiad ar Gyfnod y Benthyciad** |
|---|---|---|---|
| Y DU | DMADF, DMO | Dim cyfyngiad | Dim cyfyngiad |
| Y DU | Awdurdodau Lleol y DU | £10m | Blwyddyn |
| Y DU | Abbey | **£20m** (£15m) | 2 flynedd |
| Y DU | Bank of Scotland/Lloyds | **£20m** (£15m) | 2 flynedd |
| Y DU | Barclays | **£20m** (£15m) | 2 flynedd |
| Y DU | Clydesdale | **£20m** (£15m) | 2 flynedd |
| Y DU | HSBC | **£20m** (£15m) | 2 flynedd |
| Y DU | Nationwide | **£20m** (£15m) | 2 flynedd |
| Y DU | Royal Bank of Scotland | **£20m** (£15m) | 2 flynedd |
| **Awstralia** | **Australia and NZ Banking Group** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |
| **Awstralia** | **Commonwealth Bank of Australia** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |
| **Awstralia** | **National Australia Bank Ltd** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |
| **Awstralia** | **Westpac Banking Corp** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |
| **Canada** | **Bank of Montreal** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |
| **Canada** | **Bank of Nova Scotia** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |
| **Canada** | **Canadian Imperial Bank of Commerce** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |
| **Canada** | **Royal Bank of Canada** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |
| **Canada** | **Toronto-Dominion Bank** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |
| **Y Ffindir** | **Nordea Bank Finland** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |
| **Ffrainc** | **BNP Paribas** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |
| **Ffrainc** | **Calyon (Credit Agricole Group)** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |
| **Ffrainc** | **Credit Agricole SA** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |
| **Yr Almaen** | **Deutsche Bank A** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |
| **Yr Iseldiroedd** | **Rabobank** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |
| **Sbaen** | **Banco Bilbao Vizcaya Argentaria** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |
| **Sbaen** | **Banco Santander SA** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |
| **Y Swistir** | **Credit Suisse** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |
| **UDA** | **JP Morgan** | **£5m (£0m)** | **Blwyddyn** |

*Bydd buddsoddiadau mewn banciau y tu allan i'r DU yn cael eu cyfyngu i derfyn uchaf o 40% o'r portffolio, gyda chyfyngiad o £10m mewn unrhyw wlad.

| **Offeryn** | **Gwlad** | **Gwrthbarti** | **Uchafswm Buddsoddiad a Argymhellir £m** | **Cyfyngiad ar Gyfnod y Benthyciad** |
|---|---|---|---|---|
| Giltiau | Y DU | DMO | Dim cyfyngiad | Dim cyfyngiad |
| Cronfeydd Marchnad Arian statws AAA | Y DU / Iwerddon / Lwcsembwrg | Cronfeydd Marchnad Arian | £5m fesul enw | Hylifedd Dyddiol |
| Cronfeydd Marchnad Arian eraill a Chynlluniau Buddsoddi ar y Cyd | Y DU | Cynlluniau Buddsoddi ar y Cyd | £5m fesul enw | Hylifedd Dyddiol |

**ATODIAD CH**

**Beth Sy'n Digwydd i Fuddsoddiad Gwlad yr Iâ?**

Bu sawl erthygl camarweiniol yn y wasg genedlaethol a'r wasg rhanbarthol ym mis Ionawr ynglŷn â phenderfyniad Llywydd Gwlad yr Iâ i wahardd y cytundeb benthyciad roedd llywodraeth Gwlad yr Iâ wedi cytuno gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi mewn perthynas ag ad-dalu adneuon unigolion o'r DU oedd wedi buddsoddi yn Icesave. Nid oes gan y mater yma unrhyw effaith ar awdurdodau lleol. Byddai'r ymhlygiadau ar Lywodraeth San Steffan, fyddai'n methu adennill be ddylai Gwlad yr Iâ dalu'n unol â chytundebau traws-Ewrop ynglŷn â iawndal i fuddsoddwyr.

Bu erthyglau yn y wasg ynglŷn â phenderfyniad Bwrdd Dirwyn I Ben Banc Glitnir i beidio rhoi statws credydwyr blaenoriaeth i awdurdodau lleol o'r DU. Fel credydwyr cyffredinol heb warant, byddai awdurdodau lleol sydd â chyfanswm o £217 miliwn wedi'i adneuo ym Manc Glitnir, yn debygol o adennill 25-30% o'u hadneuon, yn hytrach na 100% fel credydwyr blaenoriaeth, a gallai'r penderfyniad yma gael ei herio yn y llys o dan gyfraith Gwlad yr Iâ. Fodd bynnag, nid oes gan Gyngor Gwynedd unrhyw arian wedi'i adneuo yn Glitnir nac yn Landsbanki, sydd mewn sefyllfa debyg (gyda £414 miliwn o adneuon cynghorau) ond maent wedi adnabod adneuon cynghorau fel hawliadau blaenoriaeth.

Fel adroddwyd i'r Cyngor yn Hydref 2008 ac yn y Datganiadau Ariannol statudol ar gyfer 2008/09, roedd gan Cyngor Gwynedd £4 miliwn wedi'i adnau ym Manc Heritable oedd wedi'i sefydlu yn Glasgow ac wedi'i gofrestru fel banc o'r DU, ond cafodd drafferthion oherwydd ei fod ym mherchnogaeth Landsbanki. Gan ei fod yn fanc Prydeinig, mae'r trefniadau dirwyn i ben yn mynd ymlaen o dan gyfraith methdaliad yn y DU, gydag Ernst & Young yn gweithredu fel gweinyddwyr swyddogol.

Roedd adroddiad manwl y gweinyddwyr i'r credydwyr (dyddiedig 13 Awst 2009) yn gyson gyda'u gohebiaeth blaenorol wrth gyfeirio at ddychweliadau "achos sylfaenol" o 70-80%. Roedd y ffigwr 70% ar sail gwaredu asedau Heritable cyn diwedd 2010, tra roedd y ffigwr 80% ar sail uchafu'r dychweliadau yn y cyfnod hyd at 2012/13. Roedd "achos sylfaenol" y gweinyddwyr yn cynnwys tybiaethau gwyliadwrus ynglŷn â'r ffactorau fyddai'n effeithio adenillion, a bu anogaeth gyson gan awdurdodau lleol i'r gweinyddwyr uchafu'r dychweliadau dros y tymor hir.

Mae gweinyddwyr Banc Heritable eisoes wedi talu dau ddifidend i gredydwyr:

- 16.13 ceiniog am bob punt ar 28 Gorffennaf 2009
- 12.66 ceiniog am bob punt ar 18 Rhagfyr 2009

Ym mhob achos, roedd y difidend a dalwyd ychydig yn uwch nag oedd y gweinyddwyr wedi darogan (cyn cau cyfrifon blynyddol 2008/09).

Ar 28 Ionawr 2010, fe ysgrifennodd gweinyddwyr Heritable at y credydwyr unwaith eto, i'w cynghori eu bod yn cynyddu eu hamcangyfrif o'r adenillion. Mae tafluniad cyfredol y gweinyddwyr yn awgrymu amcangyfrif dychweliadau "achos sylfaenol" o 79-85% (i fyny o 70-80%).

Mae'n annhebygol bydd yr union ddychweliadau terfynol yn eglur cyn 2012/13, a bydd y gwerth yn dibynnu ar berfformiad asedau Heritable, sy'n cynnwys ecwiti, ond sy'n bennaf eiddo yn y DU. Mae'r adolygiadau blaenorol a chyfredol gan weinyddwyr Heritable o'r "achos sylfaenol" wedi eu selio ar dybiaethau ynglŷn a phrif ffactorau a all gael effaith arwyddocaol ar y dychweliadau i gredydwyr, sef cyfraddau llog, y farchnad dai a'r hinsawdd economaidd eang. Dywed Ernst & Young ei bod yn amhosibl proffwydo'r ffactorau dros yr hir dymor gydag unrhyw fath o hyder na chywirdeb, felly gall y dychweliad i gredydwyr fod yn arwyddocaol uwch neu'n is na'r hyn a ragwelwyd, ac o ganlyniad mae eu hamcangyfrifon yn parhau i fod yn rhai darpariaethol.

Fodd bynnag, ar sail y dystiolaeth mewn llaw ar hyn o bryd, mae'n rhesymol i gasglu y bydd credydwyr ym Manc Heritable yn derbyn dychweliadau o 85%. Os felly, byddai Cyngor Gwynedd yn debygol o adennill £3.4 miliwn neu fwy o'i adnau gwreiddiol o £4 miliwn. Pe bai ail gwymp yna gellid adennill llai na 80%, ond pe bai gwellhad pellach yng nghyflwr economi Prydain, ni fyddai'n amhosib i ni adennill y £4m cyfan.

Ers 2008, bu newid ym mholisïau buddsoddi'r Cyngor i fod yn fwy 'wrth-risg' (gweler Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2009/10 a 2010/11). Fodd bynnag, dylid ystyried y "gwir" golledion posibl (tua £600,000 efallai) gyda Banc Heritable yng nghyd-destun llog sylweddol enillwyd yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Petae holl arian y Cyngor wedi ei fuddsoddi mewn lle mwy diogel yna byddai'r llog dderbyniwyd wedi bod tua 2% yn is, fyddai'n golygu incwm blynyddol fyddai tua £1m a £2m yn llai.

Cwymp banciau Gwlad yr Iâ oedd tarddiad ein colled posibl, ond adneuwyd yr arian mewn banc Prydeinig. Ni fydd datblygiadau diweddarach yng Ngwlad yr Iâ yn cael effaith ar werth buddsoddiad y Cyngor. Bydd canlyniad terfynol y mater bellach yn ddibynnol ar adferiad economi'r DU a llwyddiant y gweinyddwyr i weithredu'n effeithiol ar ein rhan ni er mwyn uchafu dychweliadau o asedau Banc Heritable (hyd yma a tan 2012/13).

**A. Barn yr Aelod Lleol**

**B. Barn y Swyddogion Statudol**

1. Prif Weithredwr:-

   Mae profiad Hydref 2008 wedi dangos pwysigrwydd cynllunio darbodus wrth edrych ar ein polisi buddsoddi. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu i'r adroddiad a fydd, erbyn iddo gyrraedd y Bwrdd, wedi cael sylw gan y Prif Bwyllgor Craffu.

2. Swyddog Monitro:-

   Dim sylwadau i'w hychwanegu o ran priodoldeb

3. Prif Swyddog Cyllid:-

   Awdur yr adroddiad

**C. Papurau Cefndir**

**CH. Goblygiadau Polisi**